# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 11 Gorffennaf 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

# 152(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Ymateb y Llywodraeth i ail gam cyd-ddylunio'r cynllun Ffermio Cynaliadwy

(30 munud)

## 4 Datganiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Cynnydd ar gyflwyno'r cwricwlwm newydd

(30 munud)

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip: Cenedl Masnach Deg – nodi 15 mlynedd

(30 munud)

## 6 Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023

(15 munud)

**NDM8324** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5, yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mehefin 2023.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 7 Dadl: Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru – cyflawni blaenoriaethau a rhaglen ddeddfwriaethol y llywodraeth

(60 munud)

**NDM8325** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 11.21(ii):

Yn nodi:

a) adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru 2022/23;

b) y cynnydd mewn perthynas â'r rhaglen ddeddfwriaethol.

Y Rhaglen Ddeddfwriaethol

Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru 2023

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** – Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r cynnydd parhaus a wnaed fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio rhwng Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru sydd wedi rhoi nifer o bolisïau trawsnewidiol ar waith fel rhan o'r Rhaglen Lywodraethu.

**Gwelliant 2** – Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod yr adroddiad blynyddol a'r rhaglen ddeddfwriaethol yn dangos nad oes gan Lywodraeth Cymru yr holl ddulliau angenrheidiol i sicrhau gwelliannau ystyrlon a chynaliadwy i fywydau pobl Cymru, bod yn rhaid i ni barhau i gyflwyno'r achos dros bwerau ychwanegol ond, yn y pen draw, mai annibyniaeth yw'r ffordd fwyaf ymarferol o sicrhau Cymru wyrddach, decach a mwy ffyniannus.

**Gwelliant 3** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod yr adroddiad blynyddol yn tynnu sylw at fethiannau sylweddol Llywodraeth Cymru o ran cyflawni ar gyfer pobl Cymru.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r pwysau sydd ar y systemau iechyd ac addysg, sydd ill dwy wedi derbyn toriadau tymor real yng nghyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24.

Yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r bwlch mewn cyflog mynd adref rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig, yn ogystal â'r ffaith mai gan Gymru y mae cyfradd gyflogaeth isaf y DU.

Yn gresynu at y ffaith na fydd y rhaglen ddeddfwriaethol yn cyflawni'r newid sydd ei angen ar Gymru.

## 8 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 12 Gorffennaf 2023